# Glanio

# DANCER CALL OUT

We would love to work with 2 Wales-based dance/movement artists at any stage in their career, ideally living in/near Machynlleth, for our upcoming co created performance project 'GLANIO'.

We hope to work with artists interested in creative processes exploring nature connection, climate justice, community building and the role of the arts in climate action.

It would be great if you also enjoy working outdoors and in site specific ways, and if you enjoy collaborations across art forms, have an open, curious and caring approach, we would love to meet you!

Contract fee is £1,000 for 5 days.
Final schedule to be confirmed in February but availability for the following dates in Machynlleth:

April 6th (half day rehearsal)

April 11th & 12th (full day rehearsals)

April 14th (half day rehearsal)

April, 15th & 16th (Performance days)

# ABOUT YOU

We would love to work with artists with the following skills/interests:

- Have a form of movement training and performance experience
- Knowledge of/interest in learning more about themes of climate justice, regenerative practice, nature connection
- Have a caring and open approach
- Happy with outdoor performance work.
- Experience in improvisation, comfortable learning movement material and improvisation in performance
- Would be comfortable joining workshops/co-facilitating

Additional desirables:

- Welsh speaker/learner
- Workshop facilitation experience

# ABOUT US

Glanio is a partnership between 3 creatives - Marla King (she/her), Clara Rust (she/her) and Fin Jordão (they/them) and Impelo - a participatory dance organisation that share the transformative power of dance to communities and nurture the growth of a vibrant professional dance scene here in Powys.

We came together to explore a creative response to the climate and ecological emergency we face, and find alternative models of performance and socially engaged art practice.

It builds on a performance piece piloted in 2021, working with communities building on relationships with people in Machynlleth, exploring local landscapes, connections and tensions around climate and ecological breakdown, with the potential to provide scalable models for creative and toured work with reduced carbon emissions through hyper local creative and community engagement.

The project has been funded by Arts Council of Wales and Ashley Family Foundation.

If you'd like more info about the project, have a disability and/or D/deaf access support required in order to apply, or have any questions/queries, please get in touch jemma@impelo.org.uk and we can arrange a chat/text over the phone or a video call.

# TO APPLY

Email jemma@impelo.org.uk by deadline 5pm 23rd January 2023 with the following:

- A short paragraph (max 100 words) or a short audio message/video expressing your interest in applying for the project
- A link to a movement video (approx 2 mins, either showreel or improv)
- A CV/description of your performance/movement experience/interests. (in document, audio or video form)

Diversity in all its forms makes this and all our projects stronger and we positively encourage deaf and disabled people, African Diaspora people, South East and South Asian people, or people from other ethnically diverse backgrounds to apply.

We will use this information to select the successful dance artists and let you know by 30th January

Impelo

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

The ASHLEY FAMILY FOUNDATION

# Glanio

# GALWAD DAWNSWYR

Carem weithio gyda 2 ddawnsiwr/wraig neu artist symud ar unrhyw gam yn eu gyrfa sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru, yn ardal Machynlleth os oes modd, ar ein prosiect perfformio nesaf, wedi'i greu ar y cyd, o'r enw 'GLANIO'.

Gobeithiwn weithio gydag artistiaid sy'n ymddiddori mewn prosesau creadigol sy'n archwilio cysylltiadau â byd natur, cyfiawnder hinsoddol, meithrin cymuned a rôl y celfyddydau ym maes gweithredu ynghylch yr hinsawdd.

Byddai'n beth gwych hefyd os ydych chi'n mwynhau gweithio yn yr awyr agored a mewn ffyrdd safle-benodol; ac os ydych chi'n mwynhau cydweithio ar draws gwahanol ffurfiau celf, ac yn arddel dull gweithredu agored, chwilfrydig, gofalgar, bydden ni wrth ein boddau'n cwrdd â chi!

Ffi'r contract yw £1,000 am 5 diwrnod.
Fe gadarnheir yr amserlen derfynol ym mis Chwefror, ond mae angen ichi fod ar gael ar y dyddiadau canlynol ym Machynlleth:

6ed Ebrill (hanner diwrnod o rihyrsio)

11eg a 12fed Ebrill (diwrnodau llawn o rihyrsio)

14eg Ebrill (hanner diwrnod o rihyrsio)

15fed ac 16eg Ebrill (dyddiau perfformio)

# **AMDANOCH** CHI

Rydym yn awyddus i weithio gydag artistiaid sydd â'r sgiliau/diddordebau canlynol:

- Wedi cael rhyw fath o hyfforddiant mewn symud a phrofiad perfformio
- Gwybodaeth am/diddordeb mewn dysgu rhagor am themâu cyfiawnder hinsoddol, ymarfer atgynhyrchiol, cysylltiadau â natur
- Yn meddu ar ddull gweithredu gofalgar, agored
- Yn hapus i ymgymryd â gwaith perfformio yn yr awyr agored.
- Profiad o waith byrfyfyr, yn gyfforddus wrth ddysgu deunydd symud a pherfformio'n fyrfyfyr
- Yn gyfforddus wrth ymuno â sesiynau gweithdy/cyd-hwyluso

Nodweddion dymunol eraill:

- Eich bod yn siarad/dysgu Cymraeg
- Profiad o hwyluso gweithdai

# AMDANOM NI

Partneriaeth yw Glanio rhwng 3 o bobl greadigol - Marla King (hi), Clara Rust (hi) a Fin Jordão (nhw), ac Impelo - sefydliad dawnsio cyfranogol sydd am gydrannu grym gweddnewidiol dawnsio â chymunedau gan hyrwyddo twf byd dawnsio proffesiynol bywiog yma ym Mhowys.

Fe ddaethom ynghyd i archwilio ymateb creadigol i'r argyfwng hinsoddol ac ecolegol a wynebwn ni, ac i ddarganfod modelau perfformio amgen ac arferion celfyddydol sy'n gymdeithasol ymrwymedig.

Mae hyn yn adeiladu ar sail darn perfformio a dreialwyd yn 2021, gan weithio gyda chymunedau, meithrin perthnasau â phobl ym Machynlleth, archwilio tirweddau lleol a chysylltiadau a thensiynau ynghylch dirywiad yr hinsawdd, a hynny gyda'r potensial i greu modelau ehangadwy ar gyfer gwaith creadigol y gellir ei ddangos ar deithiau gan leihau allyriadau carbon trwy ymroddiad creadigol a chymunedol ar raddfa dra lleol.

Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad y Teulu Ashley.

Os carech chi ddysgu rhagor am y prosiect, os oes gennych chi anabledd a/neu ofynion o ran mynediad B/byddar i'ch helpu i geisio, neu os oes gennych chi gwestiynau/holiadau,  cysylltwch â jemma@impelo.org.uk a gallwn ni drefnu cael sgwrs /tecstio ar y ffôn neu drefnu galwad fideo.

# I GEISIO

Ebostiwch jemma@impelo.org.uk erbyn y dyddiad cau (5yp 23ain Ionawr 2023) gan gynnwys yr eitemau canlynol:

- Paragraff byr (100 o eiriau ar y mwyaf) neu neges sain/fideo byr yn mynegi eich diddordeb mewn ymgeisio ar gyfer y prosiect
- Dolen gyswllt â fideo symud (tua 2 funud, naill ai fideo arddangos 'showreel' neu improv)
- CV/ disgrifiad o'ch profiad o berfformio/ symud/ diddordebau (ar ffurf dogfen, sain neu fideo)

Mae pob ffurf a math o amrywiaeth yn gwneud y prosiect yma a'n holl brosiectau eraill ni'n gryfach; ein nod pendant yw annog pobl F/fyddar ac anabl, pobl o'r Diaspora Affricanaidd, pobl o Dde Ddwyrain a De Asia, a phobl o drasau ethnig amrywiol eraill i ymgeisio.

Fe ddefnyddiwn ni'r wybodaeth hon i ddethol yr artistiaid dawnsio llwyddiannus, gan eich hysbysu erbyn 30ain Ionawr.

Impelo
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
The ASHLEY FAMILY FOUNDATION